**Cwestiynau Cyffredin – Ymgynghoriad y Parc Cenedlaethol ar Sut i Reoli Effeithiau sy'n gysylltiedig â Gwersylla a Charafanio yn Sir Benfro**

**1. Ar beth mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnal ymgynghoriad?**

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi cyhoeddi Papur Cefndir am y ffordd orau o reoli'r effeithiau sy'n gysylltiedig â gwersylla a charafanio yn Sir Benfro. Mae'r papur hwn yn nodi ystod o opsiynau posibl, gan gynnwys dau opsiwn sy'n cael eu ffafrio. Mae'r ddau opsiwn sy'n cael eu ffafrio yn cynnwys:

a) Dileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer meysydd carafanau a gwersylla i weithredu o dan yr hyn sy'n cael ei adnabod yn gyffredin fel y 'rheol 28 diwrnod'.

b) Sefydlu Cod Ymddygiad / Protocol Gweithio Gwirfoddol i sicrhau gwell ymgysylltiad rhwng sefydliadau eithriedig sy'n gweithredu safleoedd ardystiedig a rheoleiddwyr, gan gynnwys dau gyfarfod bob chwe mis i drafod safleoedd newydd a gweithrediad safleoedd presennol.

**2. Beth yw datblygiad a ganiateir?**

Datblygiad a ganiateir yw datblygiad y gellir ei gyflawni heb fod angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio, gan ei fod eisoes wedi'i roi gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995, fel y'i diwygiwyd ar gyfer Cymru.

**3. Beth yw safleoedd y 'rheol 28 diwrnod'?**

Mae dwy ran o ddeddfwriaeth sy'n galluogi i dir gael ei ddefnyddio fel maes gwersylla am 28 diwrnod.

Mae Dosbarth B o Ran 4 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd), yn caniatáu i unrhyw dir gael ei ddefnyddio dros dro ar gyfer ystod o ddefnyddiau am ddim mwy na 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr. Nid yw'r datblygiad a ganiateir yma yn cynnwys defnyddio'r tir fel maes carafanau, ond mae'n caniatáu pebyll.

Mae Dosbarth A o Ran 5 o Atodlen 2 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (fel y'i diwygiwyd), yn caniatáu defnyddio tir fel maes carafanau o dan yr amgylchiadau y cyfeirir atynt ym mharagraff A.2. Mae'r paragraff hwn yn cyfeirio at y rhai a bennir ym mharagraffau 2 i 10 o Atodlen 1 i Ddeddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960. Mae Deddf 1960, o dan baragraff 2, yn caniatáu i dir gael ei ddefnyddio fel maes carafanau am ddim mwy na 28 diwrnod gydag un garafán yn aros am ddim mwy na dwy noson. Ym mharagraff 3 mae'n caniatáu i dir ar ddaliadau tir 5 erw neu fwy gael ei ddefnyddio ar gyfer hyd at 3 carafán, cartref modur neu gerbyd gwersylla. Ni chaniateir unrhyw strwythurau heblaw'r cyfleusterau dros dro mwyaf sylfaenol

fel safbibell a phortalŵ heb ganiatâd cynllunio. Fodd bynnag, mae Dosbarth B o Ran 5 yn caniatáu unrhyw ddatblygiad sy'n ofynnol fel amod trwydded safle yn Neddf 1960, neu Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.

Mae'r Parc Cenedlaethol yn ymwybodol o rai materion a phroblemau o ganlyniad i'r hawliau datblygu a ganiateir – mae'r rhain wedi'u nodi yn y Papur Cefndir ar reoli effeithiau sy'n gysylltiedig â gwersylla a charafanio.

**4. Beth yw sefydliad eithriedig?**

Gall sefydliadau sy'n bodloni gofynion penodol wneud cais i Lywodraeth Cymru am dystysgrifau eithrio[1] yn Neddf Safleoedd Carafanau a Rheoli Datblygu 1960 a Deddf Iechyd y Cyhoedd 1936. I fod yn gymwys, rhaid i sefydliadau fod â'r canlynol:

- Cyfansoddiad ffurfiol;
- Amcanion gan gynnwys annog neu hyrwyddo gweithgaredd hamdden;
- Yr adnoddau i drefnu a goruchwylio gweithgareddau.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban mae 321 o sefydliadau o'r fath yn dal Tystysgrifau Eithrio. Mae tystysgrifau yn rhad ac am ddim ac yn ddilys am hyd at 5 mlynedd.

Mae 3 math o eithriad ar gyfer sefydliadau carafanau:

a) Paragraff 4 – caniatáu defnyddio tir fel maes carafanau a feddiannir gan sefydliad sy'n dal tystysgrif eithrio a roddwyd gan Lywodraeth Cymru am hyd at 28 diwrnod, gan gynnwys dim mwy na 3 carafán ar unrhyw un adeg;
b) Paragraff 5 – caniatáu i sefydliadau roi tystysgrifau (sy'n ddilys am flwyddyn) i berchnogion/deiliaid safleoedd yn datgan bod y tir wedi'i gymeradwyo ganddynt i'w ddefnyddio gan eu haelodau at ddibenion hamdden ar gyfer dim mwy na 5 carafán (neu gerbyd gwersylla/ cartrefi modur);
c) Paragraff 6 – caniatáu i sefydliadau drefnu cyfarfodydd ar gyfer eu haelodau yn unig, sy'n para hyd at 5 diwrnod (a elwir yn ralïau).

Mae eithriad pellach ar gyfer gwersylla mewn pebyll sy'n caniatáu i unrhyw faes gwersylla sy'n eiddo i aelodau'r sefydliad (neu a ddarperir neu a ddefnyddir ganddynt), gael eu defnyddio ar gyfer gwersylla mewn pebyll.

**5. Beth sy'n digwydd pan fydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 mewn grym?**

Mae hwn yn Gyfarwyddyd sy'n dileu'r caniatâd cynllunio y mae'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn ei roi ar gyfer dosbarth o ddatblygiad. Caniateir i gyfarwyddyd o'r fath gael ei wneud gan Awdurdod Cynllunio Lleol neu gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 4 o'r gorchymyn hwnnw. Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol rai Cyfarwyddiadau Erthygl 4 eisoes ar waith

[1] Trwydded wersylla (Cymru a Lloegr) - GOV.UK (www.gov.uk)

mewn perthynas ag Ardaloedd Cadwraeth er mwyn gwarchod yr amgylchedd hanesyddol.

**6. Os wyf eisoes yn berchen ar faes gwersylla, a fydd y cynigion hyn yn effeithio arnaf?**

Mae’r tabl isod yn dangos pa safleoedd y gallai’r cynigion effeithio arnynt:

| **Math o faes gwersylla** | **A oes Opsiwn ar gyfer rheolaethau ychwanegol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus?** | **Pa opsiwn a gynigir?** | **Beth fyddai hyn yn ei olygu i'm safle pe bai'n cael ei weithredu?** |
|---|---|---|---|
| Maes carafanau a gwersylla gyda chaniatâd cynllunio eisoes yn ei le | Nac oes | Amh | Dim newid. |
| Maes gwersylla yn gweithredu o dan y rheol 28 diwrnod | Oes | Mae un opsiwn yn nodi’r posibilrwydd o gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y safleoedd hyn. | Pe bai’n cael ei ddewis a'i ddatblygu byddai angen i safleoedd gael caniatâd cynllunio i weithredu am 28 diwrnod. Ni fyddai ffi yn daladwy am hyn. Y dyddiad cyflwyno cynharaf posibl fyddai 2025. |
| Maes gwersylla yn gweithredu o dan dystysgrif eithrio am fwy na 28 diwrnod | Oes | Cynhwysir dau opsiwn i’w trafod yn y papur cefndir – un yw’r posibilrwydd o gael Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer y safleoedd hyn. Fodd bynnag, nid yw hwn yn cael ei nodi fel Opsiwn a sy’n cael ei Ffafrio. Opsiwn arall a nodir fel Opsiwn a | Pe bai'n cael ei ddewis a'i ddatblygu byddai Erthygl 4 yn golygu y byddai angen i safleoedd gael caniatâd cynllunio i weithredu am y 60 diwrnod a ganiateir ar hyn o bryd drwy |

| Math o faes gwersylla | A oes Opsiwn ar gyfer rheolaethau ychwanegol yn yr ymgynghoriad cyhoeddus? | Pa opsiwn a gynigir? | Beth fyddai hyn yn ei olygu i'm safle pe bai'n cael ei weithredu? |
|---|---|---|---|
| | | sy’n cael ei Ffafrio yw datblygu Cod Ymddygiad / Protocol Gwaith fel cam cyntaf i wella’r cydweithio rhwng rheoleiddwyr a sefydliadau eithriedig. | sefydliadau eithriedig. Ni fyddai ffi yn daladwy am hyn. Y dyddiad cyflwyno cynharaf posibl fyddai 2025. Pe bai’n cael ei ddewis a’i ddatblygu, byddai’r opsiwn o God Ymddygiad / Protocol Gweithio yn cael ei ddatblygu gyda’r sefydliadau eithriedig yng nghanol 2025. |

7. **Os daw'r newidiadau yn yr ymgynghoriad i fodolaeth, pryd y byddant yn dod i rym?**
   Ar hyn o bryd, y cyfan y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei wneud yw casglu barn, a bydd yn bwydo'r rhain yn ôl i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod hydref 2024. Os gwneir penderfyniad i ddatblygu unrhyw un o'r opsiynau hyn drwy Gyfarwyddyd Erthygl 4, bydd cyfle pellach i gyflwyno sylwadau, yn debygol yn ystod hydref 2024 a dechrau 2025.

8. **Os wyf yn gweithredu safle yn Sir Benfro, ond y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, a yw’r ymgynghoriad yn effeithio arnaf?**
   Dim ond mewn perthynas â thir sydd wedi'i leoli o fewn y Parc Cenedlaethol y mae'r ymgynghoriad. Os ydych yn gweithredu safle y tu allan i’r Parc Cenedlaethol ni fydd y cynigion mewn perthynas â Chyfarwyddyd Erthygl 4 yn effeithio arnoch chi.

9. **A fydd Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar safleoedd gwersylla yn atal fy nheulu rhag gwersylla yn fy ngardd, neu aros mewn carafán ar fy nreif am y noson?**

   Na – mae'r cynigion ar gyfer Cyfarwyddyd Erthygl 4 ar gyfer meysydd gwersylla wedi'u hanelu at dir nad oes ganddo ddefnydd preswyl yn barod. Ni fydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bobl sy'n gwersylla neu'n aros mewn carafán o fewn cwrtil preswyl.

10. **Sut ydw i'n gwybod a oes angen caniatâd cynllunio arnaf i wneud rhywbeth?**
    Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gweithredu gwasanaeth cyn ymgeisio sy'n darparu gwybodaeth ynghylch a yw cynigion yn ddatblygiadau a ganiateir ai peidio. Mae'r gwasanaeth cyn ymgeisio hefyd yn nodi a yw caniatâd cynllunio'n debygol o gael ei roi, lle mae angen cynllunio ar gyfer datblygiad. Mae rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn a'r ffioedd a godir ar gael yma:
    Cyngor Cyn Ymgeisio - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

11. **Hyd at ba bryd y bydd yr ymgynghoriad yn para?**
    Cynhelir yr ymgynghoriad tan 5pm ddydd Gwener 20 Medi 2024.

12. **Sut mae gwneud sylwadau ar yr ymgynghoriad hwn?**
    Mae holiadur ar gael ar ein gwefan. Ymgynghoriadau Cyhoeddus - Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

13. **Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymgynghoriad hwn?**
    Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadrodd yn ôl i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod hydref 2024. Yn dilyn yr adborth, bydd yr Aelodau'n ystyried y camau nesaf. Os dewisir Cyfarwyddyd Erthygl 4 fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio yna bydd hysbysiad ffurfiol ynghylch y broses yn cael ei gyhoeddi ym mis Hydref 2024, gyda chyfle i gyflwyno ymatebion ffurfiol i'r Awdurdod dros gyfnod o 3 mis. Mae'n bosibl y bydd Erthygl 4 o'r fath yn cael ei chyflwyno yn nhymor yr hydref 2025.